




CARDIFF
UNIVERSITY

PRIFYSGOL
CAERDYDD

Taith Hunan-Dywys



Campws Parc Cathays

www.caerdydd.ac.uk



Taith Rithwir o Amgylch y Campws

Dysgwch fwy am y Brifysgol a dinas Caerdydd drwy fynd ar ein taith ryngweithiol ar-lein: www.caerdydd.ac.uk/taithrithwir

Mae ein taith rithwir yn ymweld â'n dau gampws, dinas Caerdydd a phreswylfeydd myfyrwyr a ddewisir. Drwy gyfrwng lluniau panoramig 360 gradd a fideos, gallwch gael blas ar sut brofiad fydd astudio a byw ym mhrifddinas fyrlymus Cymru.

Diwrnodau Agored

Rydyn ni'n cynnal diwrnodau agored rhithwir ac wyneb yn wyneb drwy gydolgydol y flwyddyn i roi cyfle i ddysgu mwy am Brifysgol Caerdydd a bywyd myfyriwr.

Dewch i gael rhagor o wybodaeth a chadw eich lle:

www.caerdydd.ac.uk/diwrnodagored

Neu cysylltwch â'r Swyddfa Diwrnod Agored yn uniongyrchol:

Ffôn: **029 2087 4455**

E-bost: Diwrnodagored@caerdydd.ac.uk

Croeso

Mae Prifysgol Caerdydd yn un o brifysgolion mwyaf blaenllaw'r Deyrnas Unedig, a hi yw prifysgol fwyaf Cymru. Mae ganddi enw da yn rhyngwladol am ei dysgu a'i haddysgu.

Mae Campws Parc Cathays y Brifysgol wedi ei leoli yng nghanolfan ddinesig Caerdydd a'r ardal gyfagos, dafliaid carreg o ganol y ddinas. Bwriad y daith hunan-dywys hon yw rhoi trosolwg cyffredinol i chi ar ystâd y Brifysgol.

Bydd y daith yn para tua awr (neu 90 munud os dewiswch fynd ar daith i lety preswyl Tal-y-bont, neu i Adeiladau'r Frenhines - cartref yr Ysgol Ffiseg a Seryddiaeth a'r Ysgol Peirianeg - neu tua 75 munud, os dewiswch fynd i'r adeiladau Optometreg, Hadyn Ellis a CUBRIC).

Sylwer: os nad ydych wedi gwneud trefniadau ymlaen llaw, ni fyddwch yn gallu mynd ar daith o amgylch ysgolion academiaidd unigol, oherwydd bydd myfyrwyr a staff yn gweithio yno, a gall fod rhesymau iechyd a diogelwch sy'n eich atal rhag cael mynediad. Yn yr un modd, ni fyddwch yn gallu gweld y tu mewn i'n neuaddau preswyl i fyfyrwyr gan fod myfyrwyr yn byw ynddynt, ond mae croeso i chi fynd o amgylch y safleoedd i gael ymdeimlad o'r lle. Cewch weld y tu mewn i'n llety preswyl ar unrhyw un o'n diwrnodau agored.

Os ydych yn ymweld â'r Brifysgol yn ystod oriau swyddfa (dydd Llun i ddydd Gwener 9am-5pm), beth am ddod i gasglu Pecyn Croeso o'r dderbynfa yn ein Prif Adeilad (**cyfeirnod 1 ar y map**).

Gall y staff yno eich rhoi mewn cysylltiad hefyd â'n tîm, fydd yn gallu ateb unrhyw gwestiynau sydd gennych. Hefyd gallwch lawrlwytho copïau o'n prospectysau a'n llyfyrnau o'n gwefan:

www.caerdydd.ac.uk/prospectws-israddedig

Covid-19

Sicrhau diogelwch a lles ein staff, ein myfyrwyr a'n hymwelwyr yw ein blaenoriaeth. Rydyn ni'n monitro sefyllfa Covid-19 yn ofalus. Edrychwch ar ein gwefan am yr wybodaeth ddiweddaraf:

<https://www.cardiff.ac.uk/cy/coronavirus>

Noder: Nid yw Ysgol Newyddiaduraeth, y Cyfryngau a Diwylliant wedi'i chynnwys ar y daith hon gan ei bod wedi'i lleoli yng nghanol y ddinas, drws nesaf i bencadlys BBC Cymru. Mae Campws Parc y Mynydd Bychan (sy'n gartref i Ysgolion Meddygaeth, Deintyddiaeth a'r Gwyddorau Gofal Iechyd) yn safle ysbyty gweithredol mawr. Fel y byddwch yn gwerthfawrogi, nid ydym yn argymhell ymweld â'r safle hwn ar hyn o bryd. Mae rhannau o Gampws Parc y Mynydd Bychan wedi'u cynnwys yn ein taith rithwir ar-lein: www.caerdydd.ac.uk/taithrithwir

Gobeithiwn y bydd y daith hon yn ddifyr ac yn addysgiadol.

NODIADAU:

Canfod y Ffordd i Brifysgol Caerdydd

Mae gwybodaeth am deithio a pharcio ar ein gwefan. Os ydych yn bwriadu teithio i Gaerdydd mewn car, gallwch gael set lawn o gyfarwyddiadau teithio o'ch cartref i'r Brifysgol yn: www.caerdydd.ac.uk/ymweld/cyfarwyddiadau

Llywio â lloeren

Os ydych yn defnyddio system llywio â lloeren, côd post Campws Parc Cathays y Brifysgol (y Prif Adeilad) yw **CF10 3AT**.

Cyngor ar gyfer ymwelwyr sydd ag anabledd / cyflwr meddygol / anhawster dysgu penodol.

Mae Caerdydd yn ymroddedig i ddarparu amgylchedd hygyrch i bob ymgeisydd, myfyriwr ac ymwelydd.

Os oes gennych ofnion arbennig o ganlyniad i anabledd, cyflwr meddygol neu anhawster dysgu penodol, rydym yn eich annog i gysylltu â ni er mwyn i ni allu gwneud trefniadau priodol cyn eich ymweliad.

I gael rhagor o wybodaeth, ffoniwch y Ganolfan Cefnogi Myfyrwyr (**cyfeirnod 11 ar y map**).

Ffôn: **029 2087 4844** E-bost: studentconnect@caerdydd.ac.uk

Mae eich taith yn dechrau yn y Prif Adeilad ym Mhlas y Parc. **Cyfeirnod A** ar y map



Prif Adeilad

Mae Prif Adeilad y Brifysgol yn gartref i Ysgolion Gwyddorau'r Ddaear a'r Amgylchedd, Cemeg a'r Biowyddorau, yn ogystal â'r Llyfrgell Gwyddoniaeth.

Mae'r adeilad yn cael ei ystyried yn un o'r enghreifftiau gorau o bensaerniaeth yng Nghaerdydd. Mae'n adeilad rhestredig Gradd II a ddyluniwyd gan y pensaer eglwysig, William Douglas Caroe, a oedd yn ceisio cyflawni "urddas tawel a swyn a graddfa" Coleg y Drindod, Caergrawnt, ynghyd â "chydbywedd hardd a chymesuredd hyfryd rhai o golegau Rhydychen".

Dechreuodd y gwaith ym 1905 a chwblhawyd y cam cyntaf ym 1909, ond daeth yr arian i ben ac ni chwblhawyd y rhannau ochr tan y 1960au. Ni chafodd y Neuadd Fawr, a oedd yn rhan o gynllun gwreiddiol Caroe, ei hychwanegu, a byddai hon wedi ffurfio pedwaredd ochr y cwadrangl.

Wrth i chi edrych ar y drws canolog, ar y dde mae Adain y Gogledd, sy'n gartref i'r Ysgol Cemeg.

Adeiladwyd yr adain hon fesul cam yn ystod y ganrif ddiwethaf. Pan agorodd Tywysog Cymru Labordai Tatem ym 1930, cafodd lawer iawn o sylw yn y wasg yn rhyngwladol oherwydd iddo deithio o Lundain i Gaerdydd ac yn ôl ar awyren mewn un diwrnod.

Mae'r gwelliannau wedi parhau, ac yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae miliynau lawer o bunnoedd wedi cael eu buddsoddi mewn cyfeusterau cemeg newydd a gwell er mwyn creu amgylchedd rhagorol ar gyfer ymchwil ac addysg.

Gyferbyn, yn Adain y De (ar y chwith), mae Ysgol Gwyddorau'r Ddaear a'r Amgylchedd. Er ei bod yn edrych mor glasurol, agorwyd yr adain hon mor ddiweddar â 1962 - gan Ddug Caeredin ar un o'i ymweliadau niferus â'r Brifysgol - er i'r Ysgol ei hun gael ei sefydlu ym 1891.

Mae'r bensaerniaeth hanesyddol ei golwg yn gartref i'r cyfeusterau diweddaraf, gan gynnwys labordai geomicrobioleg a geocemegol, microsgopeg, labordy isotopau sefydlog a labordy delweddu 3D lled-ymdrwythol. Mae gan yr Ysgol hefyd ei llong ymchwil ei hun, *Guiding Light*, sydd wedi'i hangori ym Marina Penarth, ychydig filltiroedd i ffwrdd.

Yn y man lle rydych chi'n sefyll ar hyn o bryd, y bwriad yn wreiddiol oedd y byddai'n flaengwrt â lawntiau a ffynhonnau, yn ôl dyluniad gwreiddiol Caroe.

Yn y gorffennol, defnyddiwyd y lle cyn hwn ar gyfer cyrtiau tenis glaswellt. Hefyd, criwiau ffilm sydd yno bellach. Cafodd ei newid i efelychu Marchnad Smithfield ar gyfer drama gan y BBC. Mae'r adeilad hefyd wedi bod yn bencadlys Natsïaidd mewn ffilm a chafodd ei ddefnyddio'n lleoliad ar gyfer rhaglenni teledu gan gynnwys Doctor Who a Sherlock.

Efallai y sylwch ar greithiau ar y gwaith cerrig uwchben y fynedfa - difrod yw hyn a achoswyd gan fomiau yn ystod yr Ail Ryfel Byd. Mewn man arall, aeth coridor ar y llawr uchaf ar dân ar ôl i ddyfais danllyd fynd yn sownd yn y to ym mis Chwefror 1941. Ffuriodd y myfyrwyr gadwyni o fwcadi i helpu i ddiффodd y tân.

Mae rhan ganolog yr adeilad yn gartref i'r Llyfrgell Gwyddoniaeth a rhan o Ysgol y Biowyddorau (mae'r gweddill yn adeilad modern, Syr Martin Evans, y drws nesaf i'r Prif Adeilad).

Y tu mewn, mae rhan ganolog yr adeilad yn dderbynfya o'r enw Oriel Viriamu Jones ar ôl John Viriamu Jones, a ddaeth yn Bennaeth cyntaf Coleg y Brifysgol ym 1883, ac yntau ond yn 27 oed.

Roedd y Brifysgol ar Heol Casnewydd ar y pryd, ond gweledigaeth a phenderfyniad Jones oedd yn gyfrifol am ei hadleoli yma i Barc Cathays.



Oriel Viriamu Jones

Ni welodd ei weledigaeth yn cael ei gwreddu, oherwydd bu farw ym 1901 yn 45 oed. Yng nghanol y galeri mae cerflun marmor o John Viriamu Jones, sy'n pwysu tair tunnell. Ym 1998, fe'u symudwyd 20 troedfedd o'i leoliad gwreiddiol er mwyn sicrhau y gall cadair olwyn gael mynediad i'r adeilad.

Cafodd ei gerflun ei greu gan Syr William Goscombe John, un o gerflunwyr enwocaf Cymru, a chafodd ei arddangos yn yr Academi Frenhinol ym 1906.

Defnyddir y galeri ar gyfer llawer o ddigwyddiadau a chynulladau'r Brifysgol, gan gynnwys diwrnodau agored, cynadleddau, y gwasanaeth coffa a charolau o amgylch y goeden Nadolig.


Ewch yn ôl drwy'r maes parcio, trowch i'r chwith ac yna i'r chwith eto i lawr ochr y Prif Adeilad ac anelwch am **Cyfeirnod B** ar y map

Hon yw fynedfa flaen fawr y Prif Adeilad. O Horseshoe Drive o flaen yr adeilad, edrychwch i fyny ar y fynedfa, fe welwch eiriau Cymraeg wedi'u harysgrifio ar y garreg: 'Nerth gwlad ei gwybodaeth.' Sylwch hefyd ar yr addurno trawiadol, sy'n cynnwys arbeisiau cymwynaswyr a chefnogwyr, 'ffris ffigurol' a cherfluniau o'r Brenin George V ac Edward VII, pan fe oedd Tywysog Cymru.

Wrth i chi edrych ar yr adeilad, gallwch weld Adeilad Syr Martin Evans ar y chwith, sef prif gartref Ysgol y Biowyddorau. Dyma un o'r adrannau biowyddorau mwyaf yn y Deyrnas Unedig, a dyfarnwyd Gwobr Nobel mewn Meddygaeth i'r cyn-gyfarwyddwr, yr Athro Syr Martin Evans, yn 2007 am ei waith arloesol yn canfod bôn-gelloedd embryonig. Mae'r technegau a ddatblygodd ef, a'i ddau gydweithiwr o America a rannodd y wobr, bellach yn cael eu defnyddio ledled y byd mewn ymchwil i ganser, ffbrosis cystig, diabetes ac afiechydon eraill.

Ymhlith y rhai sy'n gweithio yn Adeilad Syr Martin Evans mae Dr Rhys Jones, Cymrawd Gwadd Nodedig, sy'n cyflwyno Rhys Jones' Wildlife Patrol ar BBC Wales.

Mae myfyrwyr Meddygol a Deintyddol yn cael rhywfaint o'u haddysg yma yn ystod y flwyddyn gyntaf, ac mae'r adeilad yn gartref i'n hystafelloedd dyrannu, y rhai mwyaf yn y Deyrnas Unedig.



Prif Adeilad, y brif fynedfa

Gan wynebu'r ffordd, cerddwch i'r chwith allan o Horseshoe Drive i Rodfa'r Amgueddfa.



Stadiwm Principality

Y tu hwnt i'r adeiladau mawr ar y chwith (Amgueddfa Cymru a Neuadd y Ddinas), mae prif ganolfan siopa Caerdydd. Mae canol y ddinas yn ardal i gerddwyr yn unig, ac mae yno siopau dylunwyr, siopau adrannol (gan gynnwys un o'r siopau John Lewis mwyaf y tu allan i Lundain) a holl ffeffrynau'r stryd fawr. Mae arcedau Fictoraidd ac Edwardaidd y ddinas, gyda'u canopïau gwydr, yn llawn boutiques bach, siopau annibynnol a chaffis.

Yn agos at y ganolfan siopa, mae Castell Caerdydd. Caer Rufeinig oedd y castell yn wreiddiol, a chafodd ei ailddatblygu yn y cyfnod Normanaidd. Bu llawer o deuluoedd bonheddig yn berchen arno tan 1766 pan gafodd ei drosglwyddo drwy briodas i deulu Bute. Cafodd y castell ei ailddatblygu'n sylweddol yn y 19eg ganrif pan drawsnewidiodd 3ydd Marcwis Bute ef i greu'r castell arddull gothig, gwirioneddol drawiadol sydd i'w weld heddiw. Cafodd y castell a'r parcdir o'i amgylch (Parc Bute) eu gadael yn gymynrodd i bobl Caerdydd ym 1947.

Mae Stadiwm Principality hefyd yng nghanol y ddinas. Cynhelir digwyddiadau chwaraeon pwysig yma, gan gynnwys gêmiau rygbi rhyngwladol, yn ogystal â chyngherddau gan rai o berfformwyr mwya'r byd. Yn ystod y pandemig, cafodd ei drawsnewid yn ysbyty "Nightingale" gyda 2000 o welyau.

Croeswch yr heol ac ewch i Erddi Alexandra o'ch blaen.



Y gerddi hyn yw canolbwynt canolfan ddinesig Caerdydd. Syniad 3ydd Marcwis Bute (1847-1900) oedd yr ardal hon. Yn ôl y sôn, ef oedd y dyn cyfoethocaf yn y byd ar un adeg. Ef sy'n bennaf gyfrifol am lawer o nodweddion pensaernïaeth a thirwedd neilltuoel Caerdydd, yn ogystal â sylfeini economi ffyniannus y ddinas.

Dadorchuddiwyd Cofeb Rhyfel Genedlaethol Cymru, sydd mewn lle amlwg yng nghanol y gerddi, gan Dywysog Cymru ym 1928 ac mae bellach yn adeilad rhestredig Gradd II.

Cerddwch yn syth ar draws y gerddi i Rodfa'r Brenin Edward VII. Ar ochr arall y ffordd, mae Adeilad Morgannwg. **Cyfeirnod C ar y map**

Dyluniwyd yr adeilad rhestredig Gradd I hwn gan Vincent Harris a Thomas Moodie, yn dilyn eu llwyddiant mewn cystadleuaeth agored. Cwblhawyd yr adeilad ym 1911 ac fe'i agorwyd y flwyddyn ganlynol. Am nifer o flynyddoedd, roedd yn gartref i'r hen Gyngor Sir Morgannwg, a oedd yn gwasanaethu ardal a oedd yn ymestyn o Gaerdydd i Abertawe, gan gynnwys Bro Morgannwg a Chymoedd y De.

Mae'r cerfluniau gan Albert Hodge yn dangos sut y deilliodd cyfoeth a statws yr hen sir - drwy fordwyo a mwynloddio.

Prynodd y Brifysgol yr adeilad ym 1997, gan fuddsoddi £5M mewn creu cartref newydd i'r Ysgol Daearyddiaeth a Chynllunio ac Ysgol y Gwyddorau Cymdeithasol. Mae siambr siâp cylch godidog y Cyngor yn dal i fodoli, ac mae bellach yn cael ei defnyddio fel darlithfa.

Efallai y bydd dilynwy'r Doctor Who yn adnabod yr adeilad fel swyddfeidd cyngor Caerdydd mewn pennod lle darganfuwyd bod Maer Caerdydd yn greadur arallfydol. Mae'r adeilad hefyd wedi ymddangos ar raglen Sherlock ac mewn ffilmiau a rhaglenni poblogaidd eraill.

Cerddwch tuag at yr adeilad i'r dde o Adeilad Morgannwg - Adeilad Bute.



Yr adeilad rhestredig Gradd II hwn - yr un â draig goch ar y to - oedd cartref Coleg Technegol Caerdydd o 1916, a daeth yn brif adeilad UWIST (Sefydliad Gwyddoniaeth a Thechnoleg Prifysgol Cymru) ym 1968.

Dyluniwyd yr adeilad gan Syr Percy Thomas ac Ivor Jones. Mae chwe cholofn Ddorig Rufeinig ar flaen yr adeilad ac mae bellach yn gartref i Ysgol Pensaernïaeth Cymru. Ar hyn o bryd, mae hyn yn dibynnu ar raglen fuddsoddi gwerth miliynau o bunnoedd i ddiweddaru cyfleusterau.

Mewn gwirionedd, mae Ysgol Pensaernïaeth Cymru wedi'i lleoli yn yr adeilad hwn ers ei sefydlu ym 1919 - yn wreiddiol fel rhan o'r Coleg Technegol. Heddiw, mae'n un o'r ysgolion mwyaf o'i math yn y Deyrnas Unedig, gyda chyfleusterau sy'n cynnwys Cromen Awyr, sy'n gallu ail-greu golau unrhyw leoliad o amgylch y byd.

EWCH YM LAEN AR HYD RHODFA'R BREIN EDWARD VII, HEIBIO ADEILAD BUTE. **Cyfeirnod D ar y map**

Ar gornel Rhodfa'r Brenin Edward VII a Heol Corbett, agorwyd yr Adeilad Redwood gan Ddug Caeredin ym 1961. Mewn lle amlwg yn y fynedfa, mae cerflun cerfwedd mawr gan Bainbridge Copnall, sy'n dangos ffigur mewn toga yn estyn allan yn amddiffynnol dros wyddonydd ifanc a nyrs, gyda llyfrau a glôb o'i amgylch.



Mae'r Adeilad Redwood yn gartref i'r Ysgol Fferylliaeth a Gwyddorau Fferyllol, a chafodd ei enwi ar ôl Theophilus Redwood, sylfaenydd Cymdeithas Fferyllol Prydain Fawr. Roedd Redwood yn dod o Drebefered, ger Llanilltud Fawr ym Mro Morgannwg.

Sefydlwyd yr Ysgol ym 1919, a hi yw'r unig un o'i bath yng Nghymru. Mae amryw o ganolfannau ymchwil mawr sy'n cael eu cydnabod yn rhyngwladol wedi'u lleoli yma'n gyfan gwbl neu'n rhannol.

Roedd pump o lywyddion y Gymdeithas Fferyllol Frenhinol yn raddedigion yr Ysgol a graddiodd yr unig fferylllydd yn y cyfnod diweddar i gael ei urddo'n farchog, Syr Roger Jones, yno cyn mynd ymlaen i sylfaenu Penn Pharmaceuticals.

Croeswch Heol Corbett, trowch i'r dde a cherddwch ar hyd y ffordd; mae Neuadd Aberdâr ar y chwith. **Cyfeirnod E ar y map**

Neuadd breswyl ar gyfer myfyrwyr benywaidd yn unig yw hon. Sefydlwyd y Neuadd gan Arglwyddes Aberdâr, ym 1885 i hyrwyddo addysg i ferched yng Nghymru. Roedd yn llety i 22 o fenywod mewn cartref ar rent i ddechrau, ond mae wedi bod yn yr adeilad trawiadol hwn o deracota a brics ers mis Ionawr 1895.

Drws nesaf i Neuadd Aberdâr mae'r Ysgol Cerddoriaeth. Mae cerflun efydd pwerus, Walk In (1966), gan yr artist clodwiw o Brydain, y Fonesig Barbara Hepworth, y tu allan i'r Ysgol.

Agorwyd adeilad yr Ysgol Cerddoriaeth ym 1970 ac mae'n cynnwys cyfleusterau megis stiwdios acwstig trydan a neuadd gyngerdd 250-sedd, a ddefnyddir ar gyfer perfformiadau cyhoeddus.



Mae cyn-fyfyrwyr yr Ysgol yn cynnwys Karl Jenkins sydd wedi cyfansoddi ar gyfer y bariton o Gymru, Bryn Terfel, wedi ysgrifennu sgoriau ar gyfer ffilmiau ac wedi recordio albwm gyda'r Fonesig Kiri Te Kanawa, 'Kiri sings Karl'. Ef hefyd ysgrifennodd ffanffer ar gyfer dathliadau pen-blwydd y Brifysgol yn 125, a'r Athro Alan Hoddinott, cyn-bennaeth yr Ysgol Cerddoriaeth, ysgrifennodd y ffanffer ar gyfer priodas y Tywysog Charles a Camilla Parker Bowles.

Yn 2007, Athro'r Ysgol, Judith Weir, oedd y cyfansoddwr cyntaf i ennill Medal y Frenhines am Gerddoriaeth.

Cerddwch heibio'r Adeilad Cerddoriaeth tuag at y goleuadau traffig. Croeswch y ffordd a cherdded drwy'r gatiau coch nesaf at y siop goffi wrth y groesffordd. **Cyfeirnod F ar y map**

Dyma safle Heol Colum y Brifysgol. Mae Llyfrgell y Celfyddydau ac Astudiaethau Cymdeithasol ar y dde.

Hen dir rheilffordd yw hwn, a ddaeth i ddwylo'r Brifysgol yn y 1970au. Yn wreiddiol, rhagwelwyd y byddai ail adeilad yn rhan o gyfaddail y llyfrgell, gan ddisodli llawer o'r tai a'r siop goffi yn Heol Colum.

Hyd yn oed ar ffurf strwythur un adeilad, hon yw ein llyfrgell fwyaf, sydd bellach yn cynnwys llawr newydd, llawr Wolfson - sef e-Lolfa eang, gyda chyfleusterau diwifr a seddi hyblyg, yn ogystal â chronfa o gyfrifiaduron sefydlog. Mae ein llyfrgelloedd yn dal cyfanswm o fwy na 1.1 miliwn o lyfrau gyda'i gilydd.

Daliwch ati i gerdded ar hyd y llwybr, ac fe welwch Adeilad John Percival o'ch blaen.

Agorwyd yr adeilad hwn ym 1976, ac ychwanegwyd estyniad sylweddol yng nghanol y 1990au, i ddarparu cyfleusterau gwell i fyfyrwyr a staff. Mae'n gartref i dair ysgol academaidd: Saesneg, Cyfathrebu ac Athroniaeth; Hanes, Archaeoleg a Chrefydd; a'r Gymraeg.

Mae bri rhyngwladol i'r Ysgolion yn yr adeilad hwn am ansawdd eu gwaith, ac fel ein Hysgolion eraill, maent yn denu siaradwyr gwadd enwog.



Dilynwch y llwybr o gwmpas ochr Adeilad John Percival i'r dde, tuag at y rheilffordd. Ar ochr arall y rheilffordd, fe welwch ein Hadeilad Optometreg ac Adeilad Hadyn Ellis, yn ogystal â CUBRIC a nifer o adeiladau eraill newydd. [Cyfeirnod G](#) [ar y map](#)

Cewch gyfle i edrych yn fanylach ar yr adeiladau trawiadol hyn sydd wedi cael eu hychwanegu'n ddiweddar at ystâd y Brifysgol, os hoffech ddilyn llwybr gwahanol yn nes ymlaen.



Adeilad Optometreg



Adeilad Hadyn Ellis



Adeilad CUBRIC

Dilynwch y ffordd wrth ochr y rheilffordd. Ar eich llaw chwith, mae Canolfan Addysg Ôl-raddedig Ysgol Busnes Caerdydd, ac o'ch blaen mae Adeilad Julian Hodge, sydd hefyd yn rhan o Ysgol Busnes Caerdydd. [Cyfeirnod H](#) [ar y map](#)

Mae'r Ganolfan Addysgu Ôl-raddedigion gwerth £13.5 miliwn, a agorwyd yn 2014, yn cynnwys darlithfeydd, ystafelloedd seminar, a chyfleusterau trawiadol eraill, gan gynnwys 'ystafell fasnachu', sy'n rhoi i'n myfyrwyr sgiliau ymarferol bywyd yn y gyfnewidfa stoc.

Codwyd Adeilad Julian Hodge ag arian a adawyd i'r Brifysgol gan Syr Julian Hodge, yr entrepreneur a'r bancwr a aned yn Llundain, ond a dreuliodd y rhan fwyaf o'i fywyd yng Nghymru. Mae'r adeilad hwn yn ganolfan adnoddau addysgu sy'n cynnwys dariithfa 450-sedd ac ystafell gyfrifiaduron gyda dros 200 o gyfrifiaduron.

Ar ochr arall y rheilffordd, mae hen waith rheilffordd. Prynwyd y tir hwn gan y Brifysgol ac mae nifer o adeiladau newydd pwysig wedi ac yn cael eu hadeiladu i ffurfio Campws newydd Parc Maendy. Gallwch weld yr adeiladau hyn ar yriad dewisol byr ychydig yn ddiweddarach.



Adeilad Julian Hodge

Wrth gerdded heibio Adeilad Julian Hodge, fe ddewch at Adeilad Aberconwy.

Codwyd Adeilad Aberconwy fesul cam rhwng 1981 a 1983, ac mae'n gartref i Ysgol Busnes Caerdydd - yr ysgol academiaidd unigol fwyaf yn y Brifysgol.

Trowch i'r chwith i lawr y ffordd a cherdded tuag at y rhwystrau. Wrth i chi adael y safle a mynd i Heol Colum, ar y dde, fe welwch Neuaddau Preswyl Aberconwy, ac mae Neuadd Colum ochr arall i Heol Colum. [Cyfeirnod I](#) [ar y map](#)



Adeilad Aberconwy

Tua phum munud i'r gogledd ar Heol Colum (i'r dde), mae neuaddau preswyl i fyfyrwyr, Tal-y-bont. Dyma safle lle y mwyaf y Brifysgol, ac mae'n gartref i 2,500 o fyfyrwyr. Mae hefyd yn gartref i un o ganolfannau chwaraeon y Brifysgol, gyda chaeau chwarae pob tywydd, campfa llawn offer a chae hyfforddiant rygbi.

[Cyfeirnod J](#) [ar y map](#)

I barhau ar eich taith, ewch yn ôl drwy'r safle Dyniaethau at y gatiau coch wrth y groesffordd. Os hoffech ddilyn llwybr gwahanol am ryw 15 munud i weld rhai o'n hadeiladau newydd, trowch i'r chwith yma. Fel arall, croeswch y ffordd wrth y goleuadau traffig ac ewch ymlaen ar hyd Plas y Parc.

Os ydych yn dilyn y llwybr gwahanol, cerddwch ar hyd Cathays Terrace, dros bont y rheilffordd ac ewch heibio'r siop goffi. Trowch i'r chwith ar Heol Maendy, ewch heibio'r archfarchnad, a dyma'r Adeilad Optometreg.

Mae'r adeilad hwn, sy'n werth £16M, ac a agorwyd yn 2007, yn cynrychioli un o'r buddsoddiadau unigol mwyaf mewn gofal llygaid unrhyw le yn y Deyrnas Unedig ers blyneddau lawer. Mae'n cynnwys clinigau, labordai ac ystafelloedd addysgu gyda'r offer diweddaraf o'r radd flaenaf.

Yr Ysgol yw'r unig un o'i math yng Nghymru ac mae'n un o'r mwyaf yn y DU. Mae hefyd yn cynnig gwasanaeth gwerthfawr i'r cyhoedd, i staff ac i fyfyrwyr. Yn benodol, gall myfyrwyr yn y Brifysgol fanteisio ar y profion llygaid am ddim yng Nghlinig Llygaid yr Ysgol. Mae Mary Perkins, sylfaenydd SpecSavers, yn un o gyn-fyfyrwyr yr Ysgol.

Ewch ymlaen ar hyd Heol Maendy at Adeilad Hadyn Ellis

Mae Adeilad Hadyn Ellis yn gartref i nifer o ganolfannau ymchwil rhyngwladol eu bri. Mae'r adeilad £30M hwn hefyd yn cynnwys mannau trawiadol lle mae modd arddangos gwaith ymchwil i'r cyhoedd.

Fel yn achos llawer o'n hadeiladau, mae hwn yn ffefryn gyda chwmnïau ffilm a theledu sy'n chwilio am leoliadau trawiadol. Efallai eich bod wedi gweld yr adeilad hwn ar Sherlock a Doctor Who.

Y tu hwnt i'r adeilad hwn mae CUBRIC - Canolfan Ymchwil Delweddu'r Ymennydd, Prifysgol Caerdydd - a agorwyd gan y Frenhines yn 2016. Fe'i codwyd ar gost o £44M, ac mae'n gartref i gyfuniad o gyfarpar niwrodddelweddu sy'n unigryw yn Ewrop, yn ogystal, bellach, â rhai o arbenigwyr blaenllaw'r byd ym meysydd mapio'r ymennydd, niwrowyddoniaeth, ymchwil glinigol a geneteg.

Mae dau brosiect adeiladu arall hefyd bron â chael eu cwblhau fel rhan o safle Parc Maendy. Bydd Sbarc yn dod ag academyddion, myfyrwyr, arweinwyr busnes ac entrepreneuriaid ynghyd i greu, profi a meithrin syniadau newydd. Yn y cyfamser, bydd y Cyfleuster Ymchwil Drosiadol yn gartref i ddau sefydliad sydd â'r arbenigedd angenrheidiol i drawsnewid diwydiant.

I ailafael yn eich taith, ewch yn ôl at y gatiau wrth y groesffordd y tu allan i'r safle Dyniaethau a chroeswch y ffordd wrth y goleuadau traffig.

Wrth i chi gerdded i lawr Plas y Parc, byddwch yn gweld y tai Edwardaidd trawiadol ar y chwith. Codwyd y rhain ar gyfer teuluoedd dosbarth canol uwch, ac roedd y tai'n cynnwys lle y i'r gweision uwchben. Mae'r tai hyn - y mae llawer ohonynt wedi cael eu hestyn a'u cysylltu'n fewnol - bellach yn rhan o ystâd y Brifysgol. Mae rhifau 65-68 yn gartref i'r Ysgol leithoedd Modern ac Ysgol y Gyfraith a Gwleidyddiaeth.



Adeilad y Gyfraith



Ysgol leithoedd Modern

Ar ochr dde'r ffordd, fe welwch chi Ysgol y Gyfraith a Gwleidyddiaeth. Agorwyd yr adeilad hwn, gyda'i ben 'trwynbwl' rhyfedd, ym 1963, yn wreiddiol ar gyfer adrannau'r celfyddydau. Roedd yn ddatblygiad arwyddocaol oherwydd ei fod yn golygu, am y tro cyntaf erioed, fod gan bob aelod o staff academiaidd ystafell breifat i astudio ac i gynnal sesiynau tiwtorial.

Daliwch ati i gerdded i lawr Plas y Parc. [Cyfeirnod K](#) [ar y map](#)



Adeilad y Tŵr

Drws nesaf i Ysgol y Gyfraith mae Adeilad y Tŵr, sy'n gartref i Ysgol Seicoleg. Adeiladwyd y Tŵr, a agorwyd ym 1967, ar gyfer y gwyddorau cymdeithasol a oedd yn dod i'r amlwg. Ond, erbyn hyn, Ysgol Seicoleg Caerdydd yn unig sy'n defnyddio'r adeilad. Dyma un o'r adrannau seicoleg mwyaf yn y Deyrnas Unedig.

Uwchben y fynedfa i'r Ysgol, gallwch weld gwaith celf Mind's Eye gan Peter Randall Page. Nod y gwaith yw cyfleu'r cydadwaith deinamig rhwng gwyddoniaeth a chelf, yn enwedig pan fo hyn yn gysylltiedig â nodweddau strwythur meddyliol y meddwl dynol.

Wrth fynd ymlaen i lawr Plas y Parc, fe welwch y Ganolfan Ffitrwydd a Datblygiad Corfforol ar y chwith.

Mae'r ganolfan hon yn gyfleuster trawiadol, gan ei fod yn cynnig dosbarthiadau ymarfer, ystafell ffitrwydd fawr, ac ystafell codi pwysau rhydd.

Ewch ymlaen i lawr Plas y Parc gan fynd heibio i fynedfa Gorsaf Reilffordd Cathays (ar y chwith). Ychydig y tu hwnt i hynny, mae safle adeiladu mawr. **Cyfeirnod L ar y map**

Llun y pensaer o Ganolfan Bywyd y Myfyrwyr



Agorodd Canolfan Bywyd y Myfyrwyr, a gostiodd £50M, ym mis Medi 2021. Mae'n gartref i'n gwasanaethau cymorth i fyfyrwyr sy'n rhoi cyngor ar bynciau gan gynnwys cyllid, materion tai a phroblemau academaidd yn ogystal â chynghor arbenigol i fyfyrwyr rhyngwladol a'r rheiny y mae ganddyn nhw anableddau a dyslecsia. Mae hefyd yn cynnig gwasanaeth cwnsela cyfrinachol. Mae'r adeilad eiconig hwn hefyd yn gartref i ddarlithfa â 550 o seddi, manau astudio cymdeithasol ychwanegol yn ogystal â manau myfyrio tawel. Bydd yn gweddnewid y ffordd y mae gwasanaethau cymorth yn cael eu darparu i'n myfyrwyr.

Y tu ôl i'r Ganolfan Bywyd Myfyrwyr mae Undeb y Myfyrwyr (UM) sy'n meddiannu cymhleth mawr sy'n pontio'r prif reilffordd Caerdydd i Ferthyr Tudful.

Mae'r adeilad yn cynnwys cyfleusterau gwyb, sy'n cynnwys clwb nos a lleoliad cyngerddau gyda lle i 1,600 sydd wedi croesawu perfformwyr megis Ellie Goulding, Jake Bugg, London Grammar, Bombay Bicycle Club, Professor Green a llawer mwy. Cafodd y lleoliad ei adnewyddu'n sylweddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf, gan greu lleoliad modern ac amlwrpas ar gyfer y dydd a'r nos.

Mae'r Undeb hefyd yn cynnwys Canolfan Cyngori a Chynrychioli, y Siop Swyddi a'r Uned Datblygu Myfyrwyr, yn ogystal â chaffis, bariau a siopau.

Mae hefyd yn gartref i bapur newydd y myfyrwyr, 'Gair Rhydd', sydd wedi ennill gwobrau lu, cylchgrawn ffordd o fwy, 'Quench', a gorsafoedd teledu a radio'r myfyrwyr. Mae'n parhau traddodiad hir o newyddiaduraeth yn y Brifysgol, sy'n dyddio'n ôl i gylchgrawn mewn llawysgrifen ym 1885.

Mae Canolfan y Graddedigion yng nghyfadeilad Undeb y Myfyrwyr hefyd, ac yn darparu cyfleusterau cymdeithasol ac astudio drwy gydol y flwyddyn yn ogystal â hyfforddiant o'r radd flaenaf i fyfyrwyr ôl-raddedig a addysgir a myfyrwyr ôl-raddedig ymchwil.

Os ydych yn dod i ben eich taith yma, mae eich man dechrau ym maes parcio'r Prif Adeilad ar draws y ffordd gyferbyn.

Os hoffech fynd ymlaen ychydig ymhellach i lawr Plas y Parc, fe welwch dŷ rhif 42.

Hwn oedd cartref Pennaeth cyntaf y Brifysgol, Viriamu Jones, a'i wraig Katherine. Oddi yma y byddai wedi edrych ar draws Barc Cathays, a oedd bron yn wag ar y pryd, ac wedi dychmygu'r brifysgol fawr a fyddai'n cael ei hadeiladu yno.

Fel arall, os hoffech ymweld â'r Ysgolion Mathemateg, Cyfrifiadureg, Ffiseg neu Beirianeg, ewch yn ôl heibio Canolfan Bywyd y Myfyrwyr. Yn syth, ar y dde, byddwch yn gweld Gorsaf Reilffordd Cathays. Croeswch y rheilffordd gan ddefnyddio'r bont droed i Ffordd Senghennydd.

Gan edrych i'r chwith, byddwch yn gweld safle adeiladu mawr. Bydd yr adeilad hwn yn dod yn gartref i'r Ysgolion Mathemateg a Chyfrifiadureg a bydd yn cynnig cyfleusterau rhagorol. Mae'r tai a welwch yn rhan o Cathays, sydd erbyn hyn yn cynnwys llety myfyrwyr bron yn llwyr, a lle ceir digon o siopau lleol, siopau cludfwd a thafarndai. Weithiau, mae'n cael ei alw'n "Bentref y Myfyrwyr".



Adeilad Abacws

Trowch i'r dde ar Ffordd Senghennydd. Y drws nesaf i Undeb y Myfyrwyr, ar Ffordd Senghennydd, mae Theatr y Sherman.


Mae'r Theatr yn gartref i Gwmni Theatr y Sherman, sy'n cynhyrchu amrywiaeth eang o gynrychiadau bob blwyddyn, gan gynnwys theatr i bobl ifanc, addasiadau dyfeisgar o ddramâu clasurol a phrosiectau ysgrifennu newydd.

Ewch ymlaen ar hyd Ffordd Senghennydd. Drws nesaf i Theatr y Sherman, mae'r Adran Addysg Barhaus a Phroffesiynol **Cyfeirnod M ar y map**

Ar hyn o bryd, mae'r Ysgol Mathemateg wedi'i lleoli yn y Sefydliad Mathemateg, sy'n cynnwys labordai cyfrifiadureg a llyfrgell. Bydd yr Ysgol yn symud i'w chartref newydd yn 2021.



Adeilad Trevithick



Mynediad Heol Casnewydd i Adeiladu'r Frenhines

Trowch i'r dde i lawr y llwybr wrth ochr yr Adran Addysg Barhaus a Phroffesiynol. Dilynwch y ffordd wrth ochr y rheilffordd, ewch heibio'r neuaddau preswyl i fyfyrwyr, Llys Senghennydd, at y bont i gerddwyr ar draws y rheilffordd. Croeswch y bont a dilynwch y llwybr i lawr set fechan o risiau i Adeiladu'r Frenhines.

Cyfeirnod N ar y map

Y Frenhines agorodd y cyfadeilad ym 1993, ar ôl chwe blynedd o waith dymchwel, adeiladu ac adnewyddu. Mae bellach yn cynnwys adeiladau o'r 1920au i'r 1990au, ac yn safle gwyb ar gyfer peirianeg a ffiseg. Adeilad Trevithick, a gwblhawyd ym 1989, yw canolbwynt y cyfadeilad hwn, gyda chyfleusterau cymdeithasol a llyfrgell, yn ogystal ag ystafelloedd addysgu.

Mae cyfleusterau o'r radd flaenaf yn Ysgol Peirianeg, yn ogystal â llawer o ganolfannau ymchwil blaenllaw. Mae gan yr Ysgol ei thim rasio ceir llwyddiannus ei hun hyd yn oed. Mae gan yr Ysgol Ffiseg a Seryddiaeth ei harsyllfa ei hun, ac mae'r astroffisegwyr yma wedi helpu i ddatblygu rhai o'r telesgopau mwyaf pwerus yn y byd, sydd wedi datgelu agweddau syfrdanol newydd ar y cosmos.

Diwedd y daith.

Ewch yn ôl drwy Undeb y Myfyrwyr, gan groesi'r bont yng Ngorsaf Rheilffordd Cathays, i'r Prif Adeilad.

Fel arall, os gadewch safle Trevithick drwy'r gatiau ar y dde i'r brif dderbynfaf a throi i'r dde, daflad carreg i ffordd bydd Heol y Frenhines, un o brif ardaloedd siopa Caerdydd.

Heol y Frenhines



Rydym yn gobeithio ichi fwynhau'r daith hon. Os oes gennych unrhyw gwestiynau, cysylltwch â'r Tim Recriwtio Israddedigion ar: **029 2087 4455** neu e-bostiwch: **ymholiad@caerdydd.ac.uk**

Campws Parc Cathays

Enw adeilad	Rhif cyf.
Swyddfa Neuaddau Preswyl	35
Gogledd / De Tal-y-bont	53/54
Stadiwm Athletau Maendy / Pwll Nofio	102
Llys Tal-y-bont	55
Adeilad Aberconwy	30
Neuadd Aberconwy	58
Neuadd Colum	59
Adeilad Julian Hodge	29
Optometreg a Gwyddorau'r Golwg	31
Sbarc	34
Adeilad John Percival	27
Llyfrgell y Celfyddydau ac Astudiaethau Cymdeithasol	26
Neuadd Aberdâr	60
Cerddoriaeth	24
Ieithoedd Modern	8
Gwleidyddiaeth a Chysylltiadau Rhyngwladol	4
Caplaniaeth	10
Seicoleg	3
Y Gyfraith	4
Swyddfeydd Llywodraeth Cynulliad Cymru	104
CUBRIC	33
Adeilad Redwood	5
Canolfan Chwaraeon	15
Canolfan Ddiogelwch	2
Canolfan Supprrt Myfyrwyr	11
Ganolfan Bywyd y Myfyrwyr	11
Y Prif Adeilad	1
Abacus	18
Mathemateg	18
Addysg Broffesiynol Barhaus	20
Adeilad Bute	6
Adeilad Morgannwg	7
Amgueddfa Cymru	109
Neuadd y Ddinas	108
Y Llysoedd Barn	107
Adeilad Trevithick	21
Castell Caerdydd	111

Allwedd

 Llwybr y Daith Hunan-Dywys

 Llwybr Dewisol

 Diddymu (Llwybr Dewisol)

A - N

Cyfeirnodau'r nodiadau taith

